*This document is available in English* **Rhif ar yr agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Mehefin 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Sandra Forrest 01745 535286** |
| Pwnc | **Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a Gwir Ddangosyddion Darbodus 2017-2018** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae adroddiad blynyddol ar y trysorlys yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod, ac mae'n ymdrin â gweithgarwch y trysorlys yn 2017-2018. Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin â gwir Ddangosyddion Darbodus 2017-2018, yn unol â gofynion y Cod Darbodus.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae gweithgareddau'r Awdurdod ym maes rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoleiddio gan amrywiaeth o godau proffesiynol, statudau a chanllawiau. Mae'n ofynnol bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i nodi'r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn a chymharu'r dangosyddion a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r gwir ddangosyddion. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gweithgarwch o ran benthyciadau a buddsoddiadau, ac yn esbonio'r cefndir economaidd yn y flwyddyn.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r aelodau argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo Dangosyddion Ariannol gwirioneddol 2017-2018.

**CEFNDIR**

4 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 4 Mehefin 2018 er mwyn i'r aelodau adolygu ei gynnwys cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Gosodwyd tasg i'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau ariannol gan wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Yn dilyn cyflwyniad yn amlygu prif feysydd yr adroddiad roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am argymell fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gymeradwyo.

**GWYBODAETH**

**GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2017-2018**

## Crynodeb o'r Strategaeth y Cytunwyd arni ar gyfer 2017-2018

5 Roedd Arlingclose, sef ymgynghorwyr Trysorlys yr Awdurdod, wedi rhagweld y byddai blwyddyn ariannol 2017-2018 yn gweld cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn aros ar 0.25%. Yr argymhelliad oedd gohirio'r gweithgarwch benthyca cyhyd ag y bo modd a defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu dyledion benthyciadau dros dro newydd. Ond, os bydd benthyciadau, dylai unrhyw ddyled newydd fod am gyfnod hirach na 5 mlynedd oherwydd proffil aeddfedu cyfredol y portffolio dyledion, a'r angen i liniaru'r risg o newidiadau posibl i gyfraddau llog. Dylid cymryd agwedd wyliadwrus tuag at fuddsoddi arian dros ben, gan ddefnyddio adneuon arian parod mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu ar gyfer llif arian, a defnyddio cyfryngau eraill ar gyfer unrhyw fuddsoddiadau tymor hir eraill, fel buddsoddiadau gyda awdurdodau lleol eraill.

6 Mae'r darogan y byddai newidiadau yn y gyfradd llog wedi cael ei hadolygu ganol y flwyddyn yn dilyn yr ansicrwydd economaidd yn rhannol oherwydd trafodaethau Brexit. Cododd y gyfradd llog i 0.5% ym mis Tachwedd 2017 a'r darogan ar y pryd y gallen nhw godi eto. Ond adolygwyd yr amcangyfrifon erbyn hyn a'r broffwydoliaeth yw y bydd yn aros ar 0.5% hyd y gellir rhagweld.

## Gweithgarwch Benthyca

7 Cymerir benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod Tân ac Achub. Cymerwyd un benthyciad gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, o £2 filiwn i gymryd lle benthyciadau EIP a oedd yn aeddfedu, a dau fenthyciad o £1 filiwn i leihau lefel y benthyciadau tymor byr. £18.4 miliwn oedd cyfanswm y benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yr oedd yr Awdurdod yn eu dal ar 31 Mawrth 2018.

8 Mae gan yr Awdurdod £17 miliwn o fenthyciadau tymor byr a gymerwyd gydag Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo 55% i fod yn derfyn uchaf i'r portffolio benthyciadau ar gyfer swm benthyciadau sy'n aeddfedu cyn pen 12 mis. Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2018 oedd y bydd 55% o'r benthyciadau'n aeddfedu cyn pen 12 mis, gan gynnwys benthyciadau EIP a Blwydd-dal Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae benthyciadau tymor byr yn cael eu hadnewyddu pan fyddant yn aeddfedu, a hynny gydag Awdurdodau Lleol eraill yn dibynnu ar y cyfraddau llog sydd ar gael ar y pryd. Ar hyn o bryd, nid oes digon o hylifedd yn y farchnad i adnewyddu benthyciadau sy'n aeddfedu, neu gael rhai yn eu lle, wrth i Awdurdodau Lleol edrych y tu allan i'r sector bancio i gael arian dros ben yn y tymor byr.

9 £35.4m oedd y ddyled fenthyciadau yn weddill ar 31 Mawrth 2018, ac roedd hyn yn cynnwys yr £17 miliwn o fenthyciadau dros dro. Fe wnaeth yr Awdurdod fenthyca mymryn mwy, sef £1.4 miliwn, na'i Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) ar gyfer 2017-2018. Digwyddodd hyn yn bennaf oherwydd gofynion llif arian ar ddiwedd y flwyddyn. £454,878 oedd y llog gwirioneddol a oedd yn daladwy, o gymharu â £570,000 yn y gyllideb.

**Partïon i Gontract a Buddsoddiadau**

10 Mae polisi buddsoddiadau'r Awdurdod yn cael ei lywodraethu gan Ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cael eu gweithredu yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 15 Rhagfyr 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd, ac ni chafodd yr Awdurdod unrhyw drafferthion hylifedd.

11 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2017/18 a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Mawrth yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf a ganlyn ar gyfer partïon i gontract.

(1) Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys – terfyn £5 miliwn

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio cap ar gyfraddau) – terfyn £2 filiwn

(3) Mae gan holl fanciau'r DU ac Iwerddon, a'u his-gwmnïau, sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Dyma'r diffiniad ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| Tymor Byr | F1 |
| Tymor Hir | A |
| Sgôr Hyfywedd | bbb |

Terfyn- £5m

Os yw sgoriau banciau'n gostwng yn is na'r rhai sydd yn y tabl uchod, byddant yn cael eu defnyddio os yw adneuon mawr yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, ac os yw'r adneuon yn gostwng o fewn telerau'r warant.

(4) Mae £2 filiwn o derfyn benthyca gan Gymdeithasau Adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio).

(5) Mae £2 filiwn o derfyn, a 9 mis o gyfryngiad amser ar y mwyaf, gan Gymdeithasau Adeiladu sydd heb sgôr ond sydd ag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy

12 Cafodd yr holl arian dros ben ei fuddsoddi ar y farchnad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Tua £500,000 oedd balans craidd y buddsoddiadau am y flwyddyn, a £1,425,000 oedd balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2018 o gymharu â £375,000 ar 31 Mawrth 2017. 0.30% oedd y gyfradd a gafwyd ar fuddsoddiadau ar gyfartaledd, a chafodd yr arian ei ddal yn bennaf mewn cyfrifon galw dim rhybudd felly roedd modd cadw sefyllfa'r Awdurdod o ran hylifedd.

13 Mae balans yr arian sydd ar gael i'w fuddsoddi wedi gostwng yn sylweddol ac mae'r arian dros ben wedi cael ei ddefnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn y tymor byr. £7,000 oedd y gyllideb ar gyfer llog buddsoddiadau, a £3,120 oedd y gwir log a gafwyd.

**Dangosyddion Ariannol**

14 Yn unol â'r Cod Darbodus, mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi gwybod am y gwir ddangosyddion darbodus ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn darparu rhestr o'r holl ddangosyddion darbodus gorfodol. Mae rhai o'r dangosyddion hyn yn darparu naill ai trosolwg neu derfyn ar weithgarwch y trysorlys, a dangosir y rhain isod:

| | **Gwir 2018 £'000** | **Dangosydd Diwygiedig 2018 £'000** |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca | 35,445 | 36,132 |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 33,949 | 36,132 |

15 Mae'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (Capital Financing Requirement - CFR) yn dangos bod angen sylfaenol ar yr Awdurdod i fenthyca ar gyfer cyfalaf, ac mae hyn yn ffordd o fesur sefyllfa ddyled y Cyngor fel y dangosir uchod. Er mwyn sicrhau mai ar gyfer cyfalaf yn unig y bydd benthyciadau yn net o fuddsoddiadau dros y tymor canolig, ni ddylai benthyciadau, heblaw yn y tymor byr, fod yn uwch na'r CFR ar 2017-2018 ynghyd â'r newidiadau disgwyliedig i'r CFR yn ystod 2018-2019 a 2019-2020. Mae'r tabl uchod yn dangos bod y sefyllfa fenthyca gros fymryn yn uwch, £1.5 miliwn, na'r CFR ar gyfer 2017-2018. Ond os rhoddir ystyriaeth i fuddsoddiadau a'r newidiadau a ddisgwylir i'r CFR ar gyfer 2018-2019 a 2019-2020, nid yw'r terfyn wedi'i groesi.

16 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r "Terfyn Benthyca Fforddiadwy" sy'n ofynnol dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos bod yr Awdurdod wedi cadw ei fenthyciadau gros o fewn ei Derfyn Awdurdodedig yn ystod 2017-2018.

17 Y Ffin Weithredol yw sefyllfa fenthyca ddisgwyliedig yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pryd mae'r wir sefyllfa naill ai'n is neu'n uwch na'r Ffin yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd y tu hwnt i'r Terfyn Awdurdodedig.

| | **2017/18 £'000** |
|---|---|
| Dangosydd Diwygiedig – Terfyn Awdurdodedig | 38,132 |
| Dangosydd Diwygiedig – Ffin Weithredol | 36,132 |
| Y mwyafswm o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 35,445 |
| Yr isafswm o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 31,599 |

**Y FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO, RISG A PHERFFORMIAD**

18 Mae gweithgarwch rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael ei reoleiddio gan nifer o godau proffesiynol a statudau a chanllawiau:

- Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf), sy'n darparu'r pwerau i fenthyca a buddsoddi yn ogystal â rhoi cyfyngiadau a therfynau ar y gweithgarwch hwn;
- Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru osod terfynau un ai ar yr Awdurdod neu'n genedlaethol ar bob awdurdod lleol, gan gyfyngu ar y benthyca a ganiateir (er na wnaed unrhyw derfynau yn 2017-2018);
- Mae Offeryn Statudol (OS) 3239 (W319) 2003, fel y'i diwygiwyd, yn datblygu'r rheolaethau a'r pwerau sydd yn y Ddeddf;
- Mae'r Offeryn Statudol yn mynnu bod yr Awdurdod yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch benthyca gan ystyried Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;
- Mae'r Offeryn Statudol hefyd yn mynnu bod yr Awdurdod yn gweithredu holl weithgarwch y trysorlys gan ystyried Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Dan y Ddeddf mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyflwyno Canllaw Buddsoddi i strwythuro a rheoleiddio gweithgarwch buddsoddi'r Awdurdod.

19 Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddio uchod, sy'n cyfyngu ar lefelau'r risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli trysorlys. Yn benodol, mae'r ffaith ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu'r Cod Darbodus a'r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli Trysorlys yn golygu bod ei wariant cyfalaf yn ddoeth, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae ei arferion trysorlys yn dangos agwedd risg isel.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd doeth, fforddiadwy a chynaliadwy. Sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny'n unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 18. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael eu buddsoddi fethu gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hwn. |

ATODIAD A

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | Gwirioneddol 2017/18 | Dangosydd Diwygiedig 2017/18 |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 3,729,310 | 5,467,436 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 33,949,137 | 36,132,417 |
| 3 | Benthyca | 35,445,048 | 36,132,417 |
| 4 | Terfyn Awdurdodedig | 35,445,048 | 38,132,417 |
| 5 | Ffin Weithredol | 35,445,048 | 36,132,417 |
| 6 | Cymhareb Costau Cyllido a Net | 7.95% | 9.25% |
| 7 | Buddsoddiadau | 1,425,000 | 1,500,000 |
| 8 | Benthyciadau Cyfradd Llog Sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 100% | 55% - 100% |
| 9 | Benthyciadau cyfradd amrywiol fel % o'r Holl Fenthyciadau | 0% | 0% - 35% |
| 10 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 55% | 0% - 55% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 8.38% | 0% - 45% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 21.58% | 0% - 45% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 6.36% | 0% - 75% |
| | 10 mlynedd a mwy | 8.53% | 0% - 100% |